Cyngor Cymuned
**EGLWYS BACH**
Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 02-04-19**

| | |
|---|---|
| **Presennol** | Cynghorwyr John Emlyn Jones (Cadeirydd), John Lloyd Williams, Phyllis Purchase, Ceri Leeder, Arthur Williams, Wendy Williams, Austin Roberts a Delyth Wynne (Clerc) |
| **Ymddiheuriadau** | Cynghorwyr Ceri Leeder, Gwilym Williams a Gwenan Roberts |

1. **CROESO**

   Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod.

2. **YMDDIHEURIADAU**

   Gweler uchod.

3. **DATGAN DIDDORDEB**

   Dim.

4. **COFNODION** – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (05/03/19).

   Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan Cyng Phyllis ac eiliwyd gan Cyng John.

5. **MATERION YN CODI**

   - **Arwydd Dim Cwn**:
     Mae sticer wedi ei roi ar y polyn bach rwan.

   - **Llwybr Chwarel y Nant:**
     Derbyniwyd e-bost gan Mel ab Owain, Un Llais Cymru. Cyng Austin i holi Gwyn Williams pryd gafodd y clawdd ei roi i fyny.

   - **Polyn Banner:**
     Dim diweddariad.

   - **Bws X19:**
     Ben Pulford o Llew Jones wedi dweud eu bod yn edrych i mewn fel cwmni i ehangu eu gwasanaeth yn yr ardal gwledig ac yn edrych ar sefyllfa Eglwys Bach. Mae arolwg gan y Cynlluniad am drafnidiaeth cefn gwlad. Y Cyngor Sir wedi ymateb i ddweud bod ardaloedd gwledig ddim yn cael digon o wasanaeth a wedi rhoi syniadau iddynt.

   - **Cais Rhyngrwyd CBSC:**
     Y Cadeirydd wedi gweld Neil Payne, CBSC am yr uchod a wedi dweud bod ganddom ddiddordeb.

- **Cwyn – Fan:**
  Cyng Phyllis wedi siarad gyda'r perchennog a'r fan wedi ei symud.

- **Set Coffa ar Ffordd Bryn Hir:**
  Dim diweddariad.

- **Sedd Wag y Cyngor**:
  Cafwyd trafodaeth dwys.

- **Rheoliadau Ariannol***:*
  Pasiwyd y rheoliadau am y flwyddyn 2019/20.

- **Rheolau Sefydlog***:*
  Pasiwyd y rheolau am y flwyddyn 2019/20.

- **Adolygu Asesiad Risg***:*
  Adolygwyd yr asesiad risg am y flwyddyn 2019/20.

- **Datganiad Cysylltiad Personol***:*
  Cafwyd y Cynghorwyr presennol gopi o'u datganiad personol i ddiweddaru ac arwyddo.

- **Warden Llifogydd***:*
  Dim cyfrifoldeb gan y Cyngor Cymuned. Cyfoeth Naturiol Cymru i gysylltu gyda'r Cadeirydd ond dim diweddariad ar hyn o bryd.

- **Mynwent yr Eglwys:**
  Cyng John i ofyn i Wil beidio a thorri y cennin pedr tan iddynt farw i lawr. Buasai Pwyllgor yr Eglwys yn hoffi wybod eich barn chi am Goed Dathlu a fuasai'n medru cael eu planu yn mynwent yr eglwys. Dim ond 2 le amlosgi sydd ar ol yn y fynwent. Bydd angen mwy o le. Cyng Austin a Cyng John am fynd i edrych.

- **Tai wedi eu harwain gan y gymuned – Arfon Hughes, Grwp Cynefin:**
  Methu bod yn bresennol yn y cyfarfod heno.

6. **CYNLLUNIO**

0/46012 - Glan Aber, Ffordd Eglwysbach, Eglwysbach
Codi adeilad newydd ar gyfer da byw.

Gwrthwynebu y cais am y rhesymau canlynol:

- Llawer rhy fawr ar gyfer maint y cae;
- Problemau gwastraff anifeiliad – dwr yn llifo yn ymyl;
- Mynediad i'r ffordd yn beryglus;
- Uchder o 3 medr yn weladwy o uchder y clawdd – buasai'n newid y tirlun.

7. **ADRODDIAD ARIANNOL**

Cyfredol - £4,972.54
Angladdau - £1,968.20
Cadw - £2,072.88

**Sieciau:**

- Sue Hayward (Llnau Toiledau) - £98.00
- HMRC - £50.00
- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00
- Cymorth Cynllunio Cymru (Cyng Ceri wedi mynychu) - £35.00

8. **GOHEBIAETH**

- E-bost: CBSC – Ffioedd Casglu Gwastraff Gardd:
  Nodwyd er gwybodaeth – Cyng Ceri yn rhoi ar 'Facebook'.

- E-bost: Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (CICGC) - Amser i fynd adref?:
  Nodwyd er gwybodaeth – Cyng Ceri yn rhoi ar 'Facebook'.

9. **UNRHYW FATER ARALL**

- Sgip Cymunedol – 25/05/19;
- Conwy Cynhaliol – Cymunedau Taclus Conwy – Offer Casglu Sbwriel – mynegiant o ddiddordeb – Cyng Ceri i ymateb.
- Tro Henblas – Cyng Austin yn edrych i mewn i'r peth.
- Preswylydd yn llosgi sbwriel (cemegol ac adeiladu) yn agos at y llwybyr cyhoeddus. Cyng Austin i drafod gyda Emyr Jones/Elwyn Williams CBSC ynglyn â hyn.
- Tyllau Ffordd Maenan – Cyng Austin wedi son wrth ERF. Wedi son hefyd am ffordd Nant Gwyn i Penmynydd. Ffordd Pennant wedi ei tarmacio.
- Angen bin arall i'r fynwent – Cyng Austin i holi.
- Mainc Cof am Emlyn Davies angen gwaith – Cyng Austin i drafod gyda Emyr Jones.

10. **DYDDIADAU Y CYFARFODYDD NESAF**

Cyfarfod Blynyddol - 07/05/19
04/06/19, 02/07/19, 03/09/19, 01/10/19, 05/11/19, 03/12/19.

Gorffennodd y cyfarfod am 9.05 o'r gloch.